

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2022. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

17 Hydref 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2022 ("Rheoliadau 2022") yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/484 (Cy. 41)) ("Rheoliadau 2015").
- 1.2 Mae Rheoliadau 2015 yn gwneud darpariaeth, yn unol ag adrannau 17 ac 19 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), i athrawon newydd gymhwyso (ANG) ymgymryd â chyfnod sefydlu.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae Rheoliadau 2022 yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 17 a 47(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer y gofyniad i bersonau cofrestredig fod wedi cwblhau cyfnod sefydlu yn foddhaol ac mewn cysylltiad â'r gofyniad hwnnw.
- 3.2 Mae Rheoliadau 2022 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn unol ag adran 47(3) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014.

4. Diben y deddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Bydd Rheoliadau 2022 yn cyflwyno newidiadau i'r trefniadau sefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru y bwriedir iddynt:
 - fynd i'r afael â materion a amlygwyd am y trefniadau presennol yn nghanfyddiadau dau adolygiad annibynnol ac wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys amrywioldeb trefniadau sefydlu ac anghysondeb cefnogaeth i athrawon newydd gymhwyso ledled Cymru, a diffyg hyblygrwydd yn y trefniadau; a
 - chysoni'r trefniadau â'r polisi addysg.
- 4.2 Bydd Rheoliadau 2022 yn diwygio Rheoliadau 2015 i wneud y newidiadau a ganlyn i'r trefniadau sefydlu statudol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru:
 - i. Bydd athrawon newydd gymhwyso yn gallu ymgymryd â chyfnod sefydlu mewn uned cyfeirio disgyblion.
 - ii. Bydd yn ofynnol i athrawon newydd gymhwyso gwblhau eu cyfnod sefydlu'n foddhaol o fewn pum mlynedd sy'n dechrau gyda'r

diweddaraf o blith dyddiad dyfarnu eu statws athro cymwysedig neu'r dyddiad y daw Rheoliadau 2022 i rym, oni bai bod y corff priodol yn estyn y terfyn amser hwn. Rhaid i'r corff priodol estyn y terfyn amser hwn ar gyfer athro newydd gymhwyso mewn amgylchiadau lle caiff cyfnod sefydlu athro newydd gymhwyso ei estyn (drwy benderfyniad gan y corff priodol neu Gyngor y Gweithlu Addysg) ac nad oes digon o amser ar gael i'r corff priodol wneud penderfyniad ar gwblhau'r cyfnod sefydlu estynedig hwnnw gan yr athro newydd gymhwyso. Gall y corff priodol estyn y terfyn amser os yw wedi ei fodloni bod rhesymau da dros wneud hynny a bod yr athro newydd gymhwyso yn cydsynio.

- iii. Bydd disgrisiwn gan y corff priodol i leihau hyd cyfnod sefydlu athro newydd gymhwyso i isafswm o un tymor ysgol neu 110 o sesiynau ysgol pan fo wedi ei fodloni bod yr athro newydd gymhwyso wedi cyrraedd y safonau proffesiynol y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn cwblhau'r cyfnod sefydlu yn foddhaol, a bod yr athro newydd gymhwyso yn cydsynio.

4.3 Bydd y newidiadau hyn yn:

- caniatáu hyblygrwydd mewn perthynas â hyd y cyfnod sefydlu i sicrhau bod y ffocws ar dwf a datblygiad proffesiynol yn unol â'r safonau proffesiynol;
- sicrhau bod y lleoliadau lle gellir ymgymryd â chyfnod sefydlu yn adlewyrchu'r lleoliadau y bydd y Cwricwlwm i Gymru yn berthnasol iddynt, ac yn caniatáu i athro newydd gymhwyso sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y sector uned cyfeirio disgyblion gael cyfle i ymgymryd â chyfnod sefydlu yno; ac
- annog parhad a gwerth dysgu proffesiynol.

4.4 Ar ben hynny, cafodd y newidiadau anneddfwriaethol a ganlyn eu cyflwyno ym mis Medi 2022 er mwyn hwyluso cysondeb y gefnogaeth i athrawon newydd gymhwyso, ac i gryfhau uniondeb a gwrthrychedd y broses sefydlu:

- mae cyllid yn cael ei ddarparu i bob athro newydd gymhwyso gael ei gefnogi gan fentor nes iddynt gwblhau'r cyfnod sefydlu;
- mae dysgu proffesiynol ar gael i bob athro newydd gymhwyso (gan gynnwys y rhai sy'n gwneud gwaith cyflenwi tymor byr) ac
- mae'r canllawiau gweithredu diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys diwygiadau i egluro rolau a chyfrifoldebau o fewn trefniadau llywodraethu'r broses sefydlu.

5. Ymgynghori

5.1 Ymgysylltwyd yn rheolaidd â rhanddeiliaid ac undebau'r gweithlu yn ystod 2021.

5.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol dros gyfnod o wyth wythnos rhwng 14 Chwefror ac 8 Ebrill 2022.

- 5.3 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 14 o gwestiynau. Derbyniwyd cyfanswm o 189 o ymatebion gan athrawon newydd gymhwyso, unedau cyfeirio disgyblion, mentoriaid sefydlu, gwirwyr allanol, cyrff priodol, rhanddeiliaid ym maes addysg, awdurdodau lleol ac undebau'r gweithlu addysg. Mae'r ddogfen ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael [yma](#).

RHAN 2 – ASESAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau

6.1 Ystyriwyd tri opsiwn:

Opsiwn 1: Gwneud dim. Cadw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 mewn grym fel ag y maent ar hyn o bryd.

Opsiwn 2: Cyflwyno newidiadau anstatudol drwy ganllawiau sefydlu wedi'u diweddarau ond gadael Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 heb eu newid.

Opsiwn 3: Cyflwyno rheoliadau a chanllawiau diwygiedig yn ogystal â newidiadau anstatudol.

Opsiwn 1: Gwneud dim. Cadw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 mewn grym fel y maent ar hyn o bryd a pheidio ag adolygu'r canllawiau

- 6.2 Mae dau adolygiad annibynnol ac ymgysylltu rheolaidd â rhanddeiliaid ac undebau'r gweithlu wedi nodi newidiadau allweddol sy'n ofynnol er mwyn mynd i'r afael â materion cyfredol sy'n ymwneud â threfniadau sefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso yng Nghymru. Mae angen newidiadau hefyd er mwyn i'r trefniadau sefydlu gyd-fynd â'r broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.
- 6.3 Roedd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn dangos bod cefnogaeth i'r cynigion arfaethedig. Byddai gwneud dim yn gwrthdaro â chanfyddiadau'r ymgynghoriad.
- 6.4 Byddai peidio â gwneud y diwygiadau a geir yn Rheoliadau 2022 yn golygu nad ydym yn mynd i'r afael â materion hysbys sy'n ymwneud â'r trefniadau cyfredol. Ni fyddem yn rhoi'r dechrau gorau posibl i yrfaeodd athrawon newydd gymhwyso ac ni fyddai ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu proffesiwn addysg o safon uchel yn cael ei gyflawni.

Opsiwn 2: Cyflwyno newidiadau anstatudol drwy ganllawiau sefydlu wedi'u diweddarau ond gadael Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 heb eu newid

- 6.5 Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu gwneud newidiadau cyfyngedig, fel a ganlyn:
- darparu cyllid ar gyfer rôl y mentor;
 - egluro rolau a chyfrifoldebau o fewn trefniadau llywodraethu'r broses sefydlu, a
 - datblygu rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol ar gyfer pob athro newydd gymhwyso.
- 6.6 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu llai o darfu ar y sector na'r newid cynhwysfawr sy'n gysylltiedig ag opsiwn 3.
- 6.7 Nodwyd bod yr angen am fentora effeithiol ar gyfer pob athro newydd gymhwyso yn allweddol yn yr adroddiadau annibynnol ar sefydlu. Cafodd cynnig yr ymgynghoriad i ariannu mentoriaid hyfforddedig ei gefnogi gan bron i 80% o'r ymatebwyr. Drwy ddarparu cyllid gallwn sicrhau bod gan fentoriaid y capasiti a'r hyfforddiant proffesiynol i ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel i bob athro newydd gymhwyso trwy gydol y cyfnod sefydlu.
- 6.8 Fodd bynnag, ni ellid gwneud y newidiadau sylweddol sydd eu hangen i wella hyblygrwydd trefniadau sefydlu, er mwyn caniatáu i'r broses sefydlu ddigwydd mewn unedau cyfeirio disgyblion a chyflwyno terfyn amser ar gyfer cwblhau'r broses sefydlu yn foddhaol gan y byddai'n ofynnol adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol.

Opsiwn 3: Cyflwyno rheoliadau a chanllawiau diwygiedig yn ogystal â newidiadau anstatudol

- 6.9 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu gallu gwneud newidiadau cynhwysfawr i'r trefniadau sefydlu, y mae'r gefnogaeth tuag atynt yn amlwg o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd. Byddai'r newidiadau hyn yn:
- sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso yn adeiladu ar eu sgiliau a'u gwybodaeth yn amserol drwy gyflwyno terfyn amser o bum mlynedd ar gyfer cwblhau cyfnod sefydlu yn llwyddiannus;
 - caniatáu ymgymryd â'r cyfnod sefydlu mewn unedau cyfeirio disgyblion a fydd yn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru (i ddysgwyr cymwys o fis Medi 2022 ymlaen) a darparu'r profiadau proffesiynol y mae athrawon newydd gymhwyso eu hangen i gwblhau cyfnod sefydlu'n llwyddiannus;
 - cryfhau ansawdd y gwaith mentora a'r gefnogaeth sydd ar gael i athrawon newydd gymhwyso drwy gydol y cyfnod sefydlu;
 - caniatáu hyblygrwydd mewn perthynas â hyd y cyfnod sefydlu i sicrhau bod y ffocws ar dwf a datblygiad proffesiynol yn unol â'r safonau proffesiynol, drwy ddarparu disgresiwn i gyrff priodol i leihau hyd y cyfnod sefydlu (o tri thymor / 380 o sesiynau i isafswm o un tymor neu

110 o sesiynau) pan fo wedi ei fodloni bod yr athro newydd gymhwyso wedi cyrraedd y safonau proffesiynol, a

- gwneud yn ofynnol bod athrawon nad ydynt wedi ymgymryd â chyfnod sefydlu yn gwneud hynny o fewn cyfnod rhesymol o amser.

6.10 Byddai cyflwyno'r newidiadau hyn yn mynd i'r afael â materion a amlygwyd ynghylch y trefniadau sefydlu presennol (a nodir yn Rheoliadau 2015) yng nghanfyddiadau dau adolygiad annibynnol ac wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, ac yn sicrhau bod y trefniadau yn cyd-fynd â'r polisi addysg.

7. Costau a manteision

Opsiwn 1: Gwneud dim – cadw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 mewn grym fel ag y maent ar hyn o bryd.

7.1 O dan y trefniadau presennol, mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn gyfrifol am weinyddu cyllid sefydlu ar ran Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cyllid i ysgolion i'w galluogi i ryddhau athrawon newydd gymhwyso o 10% o'u hamserlen addysgu a chyllid ar gyfer y cymorth a ddarperir gan wirwyr allanol. Mae CGA hefyd yn cael cyllid i weinyddu'r rhaglen sefydlu ar ran Llywodraeth Cymru, sy'n golygu:

- casglu a chynnal ffynhonnell ganolog o ddata ar athrawon, gan gynnwys eu statws a'u cynnydd mewn perthynas â'r cyfnod sefydlu, hy heb ddechrau / wedi dechrau / wedi pasio / wedi methu / angen estyniad;
- cyhoeddi tystysgrifau sefydlu, a
- gwrando ar apeliadau sefydlu.

7.2 Oddeutu £4,000,000 yw cyfanswm y cyllid blynyddol a ddyrennir i CGA at y dibenion hyn (yn ddibynnol ar amrywiadau yn nifer blynyddol yr athrawon newydd gymhwyso sy'n mynd drwy'r broses sefydlu).

7.3 Mae tua 1,000 o athrawon newydd gymhwyso yn ymgymryd â chyfnod sefydlu mewn blwyddyn nodweddiadol. Yn ogystal, mae bron 300 o athrawon cyflogedig y mae'n ofynnol iddynt ymgymryd â chyfnod sefydlu, ond mae data CGA yn dangos nad ydynt yn gwneud hynny.

7.4 Byddai gwneud dim yn golygu y byddai costau'n aros yr un fath.

Opsiwn 2: Cyflwyno newidiadau anstatudol drwy ganllawiau sefydlu wedi'u diweddarau ond gadael Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 heb eu newid.

7.5 Yn ogystal â'r dyraniad presennol o oddeutu £4,000,000 fel yr amlinellir yn opsiwn 1, byddai angen cyllid blynyddol ychwanegol o tua £1,200,000 ar gyfer yr opsiwn hwn sef cost cyllido mentoriaid sefydlu ar sail anstatudol

(yn ddibynnol ar amrywiadau yn nifer blynyddol yr athrawon newydd gymhwyso sy'n mynd drwy'r cyfnod sefydlu).

- 7.6 Byddai'r £1,200,000 ychwanegol yn seiliedig ar ddyrannu £350 y tymor ar gyfer mentor sefydlu i gefnogi pob athro newydd gymhwyso a chostau cysylltiedig ar gyfer gweinyddu'r taliadau hyn.
- 7.7 Byddai'r cyllid ychwanegol hwn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i CGA i'w weinyddu ar ein rhan a bydd yn cael ei dalu o'r cyllidebau sy'n bodoli eisoes o fewn Prif Grŵp Gwariant y Gymraeg ac Addysg (MEG).

Opsiwn 3: Cyflwyno rheoliadau a chanllawiau diwygiedig yn ogystal â newidiadau anstatudol

- 7.8 Fel gydag opsiwn 2, byddai cost ychwanegol o tua £1,200,000 yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth anstatudol o gyllid i dalu am gost mentoriaid sefydlu.
- 7.9 Ni fydd galluogi athrawon newydd gymhwyso i ymgymryd â chyfnod sefydlu mewn unedau cyfeirio disgyblion yn arwain at gostau uwch. Ni fyddai nifer yr athrawon newydd gymhwyso yn y system yn flynyddol yn cynyddu o ganlyniad i'r newid hwn. Felly, byddai'r cyllid presennol yn cael ei ail-ddosbarthu i unedau cyfeirio disgyblion yn ôl y gofyn. Nid yw unedau cyfeirio disgyblion yn debygol o fynd i gostau ychwanegol drosodd ac uwch na'r rhai sy'n gysylltiedig â rhyddhau athrawon newydd gymhwyso o addysgu a darparu cymorth mentoriaid, sy'n cael eu cynnwys gan y cyllid sefydlu a amlinellir yn opsiynau 1 a 2.
- 7.10 Ni fyddai cyflwyno terfyn amser o bum mlynedd i athrawon newydd gymhwyso gwblhau eu cyfnod sefydlu yn arwain at gostau ychwanegol. Byddai'n ofynnol i athrawon newydd gymhwyso gwblhau eu cyfnod sefydlu o dri thymor ysgol / 380 sesiwn o fewn terfyn amser o bum mlynedd, a byddai'r cyllid yn cael ei ddarparu i'w cefnogi fel yr amlinellir yn opsiynau 1 a 2. Mantais y newid hwn i'r rheoliadau yw sicrhau bod athrawon newydd gymhwyso yn adeiladu ar eu sgiliau a'u gwybodaeth yn amserol ac yn dangos eu bod yn cwrdd â'r safonau proffesiynol ac yn gallu symud ymlaen i fod yn athro effeithiol.
- 7.11 Mae cyfleoedd yn rhan o'r opsiwn hwn i wneud rhai arbedion oherwydd gallu rhai athrawon newydd gymhwyso i gwblhau'r cyfnod sefydlu mewn llai na thri thymor neu 380 o sesiynau. Mewn achosion o'r fath byddai'r athro newydd gymhwyso yn rhoi'r gorau i dderbyn cefnogaeth gan fentor sefydlu ar ôl cwblhau'r cyfnod sefydlu. Yn ogystal â hyn, byddai'r cyllid i ryddhau athrawon newydd gymhwyso am 10% ychwanegol o'u hamser addysgu hefyd yn dod i ben pan fyddant yn cwblhau'r cyfnod sefydlu'n llwyddiannus. Byddai hyn yn gost is i Lywodraeth Cymru, gan leihau'r cyllid o £1,200,000 y flwyddyn (opsiwn 2) sydd ei angen i Gyngor y Gweithlu Addysg ei weinyddu ar ein rhan.

- 7.12 Er enghraifft, ar hyn o bryd, mae ysgol yn derbyn tua £900 y tymor drwy Gyngor y Gweithlu Addysg i ariannu'r 10% o amser y mae athrawon newydd gymhwyso yn cael i'w rhyddhau o'u hamserlen addysgu. Pe bai athro newydd gymhwyso yn cwblhau'r cyfnod sefydlu mewn llai na thri thymor, yna byddai'r cyllid a ddyrannwyd i'r ysgol yn cael ei leihau yn unol â hynny. Telir arian ar gyfer y mentor sefydlu ar gyfradd o £350 y tymor. Felly, pe bai athro newydd gymhwyso yn cwblhau'r cyfnod sefydlu mewn llai na thri thymor neu 380 o sesiynau byddai'r cyllid ar gyfer y mentor yn cael ei leihau yn unol â hynny. Mae'r arbedion fesul athro newydd gymhwyso yn debygol o fod yn fach iawn, fodd bynnag, a rhagwelir y bydd y mwyafrif o athrawon newydd gymhwyso yn cymryd tua thri thymor neu 380 o sesiynau i ddangos, trwy eu proffil sefydlu, eu bod yn cyrraedd y safonau proffesiynol.
- 7.13 Ychydig iawn o gost weinyddol fydd i Lywodraeth Cymru ddatblygu'r canllawiau i gefnogi'r gwaith o weithredu Rheoliadau 2022.
- 7.14 Mae cyllid eisoes wedi'i ddyrannu i Gyngor y Gweithlu Addysg fel yr amlinellir yn opsiwn 1 i weinyddu'r rhaglen sefydlu. Bydd y gost i Gyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer gweinyddu'r newidiadau i'r rheoliadau sy'n deillio o'r opsiwn hwn yn fach iawn a gellir ei fodloni o'r cyllid presennol.
- 7.15 Ar y cyfan, mae'r effaith ar gost cyflwyno'r newidiadau arfaethedig yn debygol o fod yn fach iawn. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig ag opsiwn 3 yn fwy na faint fyddai'n gysylltiedig ag opsiwn 2 Mae'r costau hynny eisoes wedi cael eu ffactora i gyllidebau Llywodraeth Cymru, ac felly nid ydynt yn creu unrhyw bwysau ariannu ychwanegol.

8. Asesu'r gystadleuaeth

- 8.1 Ar ôl cwblhau'r prawf Hidlo'r Gystadleuaeth, canfuwyd na fydd yna effeithiau ar gystadleuaeth.

9. Adolygu ar ôl gweithredu

- 9.1 Bydd effaith y trefniadau newydd yn cael ei monitro'n ofalus gan swyddogion Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio data gan arweinwyr sefydlu awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol a CGA.
- 9.2 Byddwn yn cydweithio â phartneriaid sefydlu i adolygu cynnydd yn erbyn amcanion polisi. Bydd y newidiadau'n cael eu hadolygu yn 2025 er mwyn sefydlu'r gwir gostau a manteision ac a ydynt yn cyflawni ein nodau a nodir.